***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 2

# MÂN DDIWYGIADAU, DIWYGIADAU CANLYNIADOL A DIDDYMIADAU

## **RHAN 5**

## IS-DDEDDFAU

### *Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (p. 97)*

28 (1) Mae Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 106(5), yn lle "Countryside Council for Wales" rhodder "Natural Resources Body for Wales".

(3) Yn adran 106A, yn y pennawd ac yn is-adran (1), yn lle "Countryside Council for Wales" rhodder "Natural Resources Body for Wales".

### *Deddf Cefn Gwlad 1968 (p. 41)*

29 Yn adran 41(7A) o Ddeddf Cefn Gwlad 1968, yn lle "Council" rhodder "NRBW".

### *Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (dccc 2)*

30 (1) Mae Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 3(d), yn lle "Cyngor Cefn Gwlad Cymru" rhodder "Corff Adnoddau Naturiol Cymru".

(3) Yn adran 7(8)(b), yn lle "Gyngor Cefn Gwlad Cymru" rhodder "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru".

(4) Yn adran 8(8), yn y geiriau agoriadol—

(a) yn lle "Gyngor Cefn Gwlad Cymru" rhodder "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru";

(b) yn lle "i'r Cyngor" rhodder "i'r Corff".

(5) Yn Atodlen 2, hepgorer paragraff 11.